

Llawlyfr ar gyfer Ymarferydd
Blynyddoedd Cynnar i sicrhau
trosglwydd llyfn i blant Meithrin yn yr
ysgol.



(Llun: Clipartstation, dim dyddiad)

Cynnwys.

Cyflwyniad a Rhesymwaith.....	2
Pontio.....	2
Anghenion y plentyn.....	3
Rôl yr oedolyn.....	4
Gweithwyr Allweddol.....	5
Sut allwch helpu.....	5
Pwy sydd yn lunio'r plentyn?.....	6
Cyferiadau.....	



(Llun: kindpng, 2019)

Cyflwyniad a Rhesymwaith.

Y pwrpas y llawlyfr hwn yw hyrwyddo eich dealltwriaeth o'r pwysigrwydd o sicrhau trosglwyddiad llyfn a llwyddiannus i blant sydd yn dechrau yn ein Hysgol Feithrin. Yn y llawlyfr yma bydd y pwyslais ar bontio o'r oedran 3-4 blwydd oed.

Mae'r llawlyfr hon wedi eu hysbysu at bobol sydd yn gweithio gyda phlant sydd rhwng 3-4 blwydd oed ac yn pontio o fod mewn rhyw leoliad arall, nai llai mewn lleoliad blynyddoedd cynnar arall neu o fod gartre gyda'u theulu. Mae yna wybodaeth i gefnogi staff sydd yn gweithio gyda'r oedran yma a sut allwch eu helpu'r plant i sicrhau pontio llyfn a llwyddiannus i mewn i leoliad ysgol, lleoliad sydd yn estron i'r plentyn.

Mae angen cofio bydd y plentyn yn dod i mewn i sefyllfa a lleoliad hollol wahanol i beth maen nhw wedi a'u harfer. Bydd pethau i'w weld yn wahanol, bydd pethau i swnio'n wahanol, i aroglu'n wahanol a hefyd i bobol dieithriaid iddyn nhw.

Yn ôl David Cargo (Belfast Education and Library Board, 2011, p. 3) mae plant yn dechrau ysgol yn llond gwahanol sgiliau sydd yn adlewyrchu'r profiadau maent wedi cael yn barod, a bydd pob plentyn wedi cael profiad gwahanol i'w gilydd. Mae e'n swydd i'r ymarferydd adeiladu ar y sgiliau sydd gyda'r plentyn yn barod. Os mae un plentyn yn dechrau ac maen nhw'n gallu cyfri i 10 yn barod, ond mae pob plentyn arall yn gallu cyfri i 5, peidiwch â dim ond dysgu cyfri lan i 10 gyda nhw. Gwthiwch y plentyn arall a dysgwch sut i gyfri lan i 15 neu ugain.

Pontio.

Awgryma Brooker (2008, p. 4) mae 'na lawer o wahanol adegau o bontio i gael. Bydd plant yn dod ar draws sawl un yn eu bywydau o enedigaeth i 18 blwydd oed ac ym mhellach. Gall fod plant pontio o Feithrinfa i ysgol feithrin, ysgol feithrin i feithrin mewn ysgol gynradd rhan amser, meithrin llawn amser mewn ysgol gynradd i ddosbarth derbyn, cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 2, ysgol gynradd i ysgol uwchradd, ysgol uwchradd i goleg. Mae pontio yn rhan o ein bywydau. Yn ôl Brooker (2008), wrth gael profiad negyddol wrth bontio gall hyn effeithio a thanseilio hunan hyder, hunan-barch a'u hunan effeithiolrwydd y plentyn. Hynny yw gall y plentyn i deimlo'n ffôl ac yn ansicr wrth gael profiad negyddol wrth bontio. Wrth sicrhau pontio llyfn gall hyn helpu'r plentyn trwy gydol eu bywyd wrth ddod o hyd i'r holl wahanol pontio bydd yn profi, cael ei adael fel babi am y tro cyntaf wrth i'r gofalwr mynd yn ôl i waith, i ymddeol a phopeth yn y canol. Gan nad ydi pontio i blant yn unig!

Cred Trodd (2013, p. 59) bod pontio yn broses mewnol gallwch brofi trwy fod yn sefyllfa newydd neu wahanol. Wrth bontio mae'r broses yn broses seicolegol maent yn profi wrth ddod i arfer a'r sefyllfa newydd. Hynny yw dydi o ddim yn broses corfforol mae'r newidiadau yn newidiadau i'r arfer, i beth sydd yn achosi'r plentyn i deimlo'n ddiogel a sefyllfa sydd yn rhagweladwy i'r plentyn.

Gall pontio llyfn fod o gysur i'r teuluoedd. Gan gynnwys y teuluoedd yn y broses o bontio bydden yn gwybod beth i ddisgwyl a gallant helpu paratoi'r plant ar gyfer pontio. Trwy gynnal sesiwn croeso i'r gofalwr gallent deimlo'n rhan o'r broses. Gall yr oedolion teimlo'n bryderus neu yn nerfus gyda'r broses pontio. Wrth iddyn nhw gerdded o gwmpas y lleoliad dangoswch enghreifftiau o'r gwaith mae'r plant arall wedi ei gwneud yn barod. Ewch a nhw i'r ardal allanol a dangoswch yr holl gyfleoedd bydd eu plant yn cael wrth ymuno yn eich lleoliad. Trafodwch y ffaith bod hi'n hanfodol i blant cael profiadau allanol. Odi'r lleoliad wedi dylanwadu a'r credoau Froebal? Gan ystyried dynesu Froebal dywed Tovey (2017, p. 64.) nawr yn fwy nag erioed mae'n bwysig i blant gwneud cysylltiad gyda'r byd naturiol. Gan fod plant yn treulio fwy o amser dan do maent yn datgysylltu gyda'r byd natur o'u gwmpas ac mae angen i hyn i newid. Yn ôl Aubrey a Riley (2019, p. 158) roedd Bronfenbrenner yn rhoi pwyslais ar y pwysigrwydd o gael profiad postif wrth bontio. A gall cael pontio gwael neu negatif gosod y naws ar gyfer pob profiad o bontio bydd y plentyn yna yn dod ar draws yn ei bywydau. Credwyd bod e yn hanfodol bod lleoliad blynyddoedd cynnar a chartref y plentyn yn gweithio gyda'i gilydd.

Anghenion y plentyn.


Gall fod yn llai brawychus i'r plentyn os ydynt yn dechrau yn y lleoliad yn rhan amser, yn enwedig os ydynt yn dangos ei fod yn bryder gwahanu. Gall pryder gwahanu digwydd i blentyn oedran yma. Falle bydde mwyafrif o bobol yn meddwl am fabis wrth feddwl am bryder gwahanu ond gall hyn digwydd yn yr oedran yma yn enwedig os ydi'r plentyn wedi bod yn aros gartre gyda'i gofalwr. Ar ôl sbel bydd y plentyn yn dod i arfer a gadael ei gofalwr ac yn sylweddoli er bod y gofalwr yn gadael y plentyn, mae'r gofalwr pob tro yn dod nôl at y plentyn. Gan ystyried y damcaniaethwr Piaget mae Mooney (2013, p. 83) yn dweud ei fod yn bwysig i'r plentyn i beidio cael gormod o newidiadau'r un adeg a phontio. Mae'n bwysig hefyd i gadw rhyw arferol yn fywyd y plentyn fel bod y plentyn yn sylweddoli nid yw popeth yn ei byd bach nhw yn newid. Mae'n bwysig i gysuro'r gofalwr wrth atgoffa nhw fydd yr adeg yma o bryder gwahanu yn pasio, falle bydd angen bach mwy o amser i'r plentyn ond fe ddaw nhw. Yn y sefyllfa yma gallwch ddefnyddio enghraifft o blentyn arall oedd yn cael trafferth i setlo, ond rhowch bwyslais ar y ffaith bof y plentyn wedi setlo nawr ac yn mwynhau ei amser yn y lleoliad. (Llun: Funderstanding, 2011)



Yn ôl Trodd (2013, p. 59) wrth sicrhau pontio llyfn a llwyddiannus, sydd yn rhoi llai o straen i'r plant, bydd y plant yn iachach, hapusach, ac yn ddisgyblion llwyddiannus! A dyna beth mae pawb yn anelu at. Hynny yw os mae plentyn yn cyrraedd y lleoliad un bore ac mae'r plentyn yn llefain a ddim am adael y gofalwr i fynd, croesawch y gofalwr i mewn gyda'r plentyn. Falle bod y plentyn yn anhwylyd ac am fod gyda'r gofalwr. Neu falle bod materion ymlyniad gyda'r plentyn. Yn ôl McDonald, Gealy a Tinney (2019) mae yna sawl ymchwiliad a chysylltiadau wedi cael eu darganfod wrth ystyried materion ymlyniad a llefydd tloedi. Maent yn dweud bod plentyn yn fwy tebygol o ddatblygu problemau wrth ffurfio ymlyniad o ganlyniad o fyw yn llefydd mwy tlawd. Ac o ganlyniad maen mwy tebygol fydd y plentyn yn datblygu problemau ymddygiad ac emosiynol, bydd hyn yn cael effaith negyddol ar ei ddeilliannau.

Rôl yr oedolyn.

Er mwyn i blentyn cyrraedd ei llawn botensial mae angen i'r plentyn ffurfio ymlyniad diogel. Yn ôl hierarchaeth anghenion Maslow 1943, mae McLeod (2018) yn dweud ni allwch ddisgwyl i blentyn i gyrraedd ei llawn botensial heb fod pob anghenion yn cael ei lenwi. Mae ymlyniad diogel yn cael ei ffurfio pan mae'r anghenion sylfaenol y plentyn yn cael ei lenwi, hynny yw bod y plentyn yn cael diod, bwyd, cartref twym a diogel, a chariad. Wrth i'r prif ofalwr llenwi'r anghenion sylfaenol y plentyn, mae'r plentyn yn adeiladu ymddiriedaeth gyda'r gofalwr a sylweddoli gallent ddibynnu arnyn nhw i lenwi ei anghenion sylfaenol. Fodd bynnag, os nad yw'r prif ofalwr yn llenwi'r anghenion yma, ni fydd y plentyn yn ffurfio ymlyniad gyda'r gofalwr. Mae Frost et al. (2013, p. 23) yn dweud wrth ffurfio ymlyniad mae hyn yn hyrwyddo'r plentyn i fod yn ddibynnol ac annibynnol.



(Llun: Manchester Metropolitan

University, dim dyddiad).

Yn ôl (*Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar*, 2015) y canlyniadau'r plant blynyddoedd cynnar yw sicrhau fod y plentyn yn iach, yn teimlo ac yn ddiogel, yn datblygu ac yn dysgu, ddim yn byw mewn tloedi, yn ymdopi, abl ac yn gydnerth, yn cael cefnogaeth, gofal a gwerthfawrogiad.

Gweithwyr Allweddol.

Dyma le fydd gweithwyr allweddol yn helpu. Os nac oes plentyn wedi ffurfio ymlyniad gyda'r gofalwr gall plentyn ffurfio ymlyniad gydag aelod o staff. Trwy adeiladu perthynas gyda'r plentyn bydd y plentyn yn dechrau ymddiried y gweithwyr allweddol a gall hyn datblygu i fod yn ymlyniad lle fydd y plentyn yn gwybod gallent derbynni arnyn nhw. Wrth ystyried damcaniaethwyr Bowlby ac Ainsowrth (Aubrey a Riley, p.155) os na yw plentyn yn ffurfio ymlyniad diogel yn y blynyddoedd cynnar, gall hyn effeithio galluoedd y plentyn i ffurfio perthynas glôs ac i gadw'r perthynas hyn yn ystod ei bywyd. Mae'n bwysig bod yr ymarferydd yn deall pam gall ymddygiad plentyn fod yn wael. Mae rhai damcaniaethwyr yn credu gall plentyn ymddwyn mewn un ffordd achos y ffordd a chawson ei fagu ond mae rhai yn credu taw'r eneteg sydd yn achosi'r ymddygiad gwael. Beth am ystyried yr esiampl hon, os odi gofalwr yn gweiddi at y plentyn trwy'r amser bydd y plentyn yn dod ag arfer a hynny a meddwl bod hi'n iawn i ymddwyn fel hyn achos y ffordd mae wedi cael ei fagu. Wrth ystyried gwaith John Locke bu Androne (2014, p. 74) yn cytuno wrth ddweud bod plant yn cael ei eni gyda meddwl fel llechen wag ac mae personoliaeth y plentyn yn datblygu yn ôl ei phrofiadau.

Wrth weithio yn yr yrfa hon, mae'n debygol iawn bydd rhyw sefyllfa yn effeithio emosiynau'r ymarferydd. Mae hyn yn berffaith iawn ond mae angen adnabod pryd i ofyn am help (Children's Workforce Development Council, 2010, p. 12).

Mae hi'n hanfodol bod yr ymarferydd yn adnabod pryd mae angen ymyrraeth a sut i ddefnyddio adnoddau a sut i adrodd y sefyllfa ac i bwy.

Sut allwch helpu.

Wrth groesawu'r rhiant mewn i'r lleoliad gall hyn atal y straen oddi wrth y plentyn. Anogwch y plentyn i ddod i chwarae ar y llawr yn agos i'r rhiant neu'r gwarchodwr. Wrth chwarae gyda theganau gall hyn helpu'r plentyn i wneud cysylltiad rhwng y cartref a'r lleoliad. Ar ôl bach o amser falle bydd y plentyn yn teimlo'n hapusach i aros yn y lleoliad heb y rhiant neu'r gwarchodwr. Hawlia Gunning (2020) bod gweithio mewn partneriaeth rhwng y rhieni, ymarferydd blynyddoedd cynnar a'r aml-asiantaeth yn cymryd amser, ond mae'n helpu'r plentyn i gael profiad positif wrth bontio.

Croesawch y plentyn wrth y dros bob bore a dangoswch ble mae'r plentyn i fod i gadw ei bethau. Dangoswch fod gan y plentyn bachyn ei hunan a'i henw arno. Oes mae yna wal teimladau esboniwrch i'r plentyn beth sydd angen i'r plentyn gwneud pob bore ar y wal. Dangoswch ble mae'r tŷ bach. Mae'r pethau yma yn rhoi cyfrifoldebau i'r plentyn a gall hyn helpu'r plentyn i deimlo o werth.

Mae cynnal prynhawn agored i'r rhieni neu'r gofalfwyr i ddod mewn i weld y lleoliad ac i gael sgwrs gyda'r ymarferydd yn helpu adeiladu'r wybodaeth y rhieni er mwyn

iddyn nhw deimlo'n rhan o'r broses ond hefyd i godi unrhyw bryderon gyda'r ymarferydd.


Mae angen amser i adeiladu perthnasau gyda phobol newydd a dydi hyn ddim yn wahanol i blant. Wrth ystyried y Reggio Approach mae Thornton a Brunton (2014, p. 16) yn cydnabod y pwysigrwydd o adeiladu perthnasau positif a gryf er mwyn sicrhau deilliannau positif i'r plant. Swydd yr ymarferydd blynyddoedd cynnar yw meddwl am wahanol ffyrdd sut allwch adeiladu'r perthynas gyda'r plentyn ond hefyd gyda'i rhieni. Gall yr ymarferydd blynyddoedd cynnar cysylltu gyda'r gofalwr yn aml i adrodd nôl unrhyw wybodaeth am sut mae'r plentyn wedi setlo mewn ond hefyd sut maent yn datblygu yn y lleoliad. Wrth greu llyfr sgrap neu dynnu lluniau a chroesawu'r gofalwr mewn i'r lleoliad a dangos iddynt beth mae'r plentyn wedi bod yn wneud yn y lleoliad, gall hyn helpu adeiladu perthynas positif rhwng y gofalwr a'r ymarferydd blynyddoedd cynnar (Welham 2015). Mae dod i adnabod y plentyn a'u rhieni yn hanfodol i adeiladu perthynas cryf a phositif. Wrth groesawu nhw i'r lleoliad gofynnwch gwestiynau amdanyn nhw. Ceisiwch ddarganfod beth mae'r plentyn yn hoffi neu ddim yn hoffi. Ond hefyd mae rhaid bod yn ymwybodol o beth mae'r rhieni yn dweud a'i iaith gorfforol. Er enghraifft os nad ydynt am gynnig gwybodaeth peidiwch â holi mwy. Mae angen i'r ymarferydd dangos sgil o fod yn feddylwyr beirniadol fan hyn.

Mae Walker *et al* (2012) yn argyhoeddedig fod angen cymorth wrth y lleoliad ac mae'n angenreidiol fod yr ysgol yn gallu darparu ar gyfer plant sydd ag anghenion. Mae erthygl 23 o'r UNCRC (United Nations Convention on the Rights of the Child) yn dweud "Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol" (Unicef, 2010).

Pwy sydd yn lunio'r plentyn?

Mae yna sawl damcaniaethwr sydd yn annog y lleoliad blynyddoedd cynnar i greu naws cartrefol er mwyn sicrhau pontio llyfn. Wrth gwrs mae plentyn yn mynd i setlo'n well os gallant wneud gysylltiad gyda'r lleoliad newydd a'i gartref. Er enghraifft falle bod y plentyn yn hoff iawn o chwarae gyda set trê Brio. Os mae'r plentyn yn dod i'r lleoliad a gweld y set Brio (fel sydd gyda nhw gartre) gall hyn yw helpu gwneud y cysylltiad o'r cartref i'r lleoliad. Dyma pam maent yn bwysig bod yr ymarferydd blynyddoedd cynnar yn dysgu am y plentyn, beth yw ei hoff degan? Beth mae'r plentyn yn hoffi gwneud gartref? Dywed Aubrey a Riley (2019, p. 158) wrth ystyried damcaniaethwr Bronfenbrenner ni allwn tan ddatgan y pwysigrwydd o'r cartref a'r lleoliad blynyddoedd cynnar yn gweithio gyda'i gilydd i roi'r budd gorau'r plentyn yn y blaen. Wrth adeiladu perthynas gyda'r gofalwr, maent yn fwy tebygol o ddweud wrth yr ymarferydd os oes ganddynt unrhyw bryderon am y plentyn a gall yr ymarferydd gweithio gyda'r gofalwr er mwyn sefydlu cynllun gweithredu i helpu'r plentyn neu'r sefyllfa.

(Llun: SimplyPsychology, 2020)



Edrychwch ar y diagram o'r Pump Systemau Ecolegol gan Bronfenbrenner. Roedd Bronfenbrenner yn sôn am y ffaith oedd yna pum gwahanol systemau sydd yn ffurfio'r gwahanol grwpiau o bobol sydd yn ffurfio'r amgylchedd y plentyn. Gall yr ymarferydd canolbwyntio ar y 2 systemau gyntaf. Mae'n dechrau gyda'r 'Microsystem' lle mae Bronfenbrenner yn enwi teulu, ysgol, gwasanaethau iechyd a lleoliad blynyddoedd cynnar. Mae Bronfenbrenner yn dweud bod y bobol sydd yn ffurfio'r 'Microsystem' yma yn cael dylanwad

cryf ar y plentyn, a dyma ble ddysgu'r plentyn sut i drin ac ymddwyn gyda phobol eraill. Os ydi'r plentyn yn cael ei fagu gyda pherthynas cariadol a maethol gyda'i rhieni bydd hyn yn creu effaith positif i'r plentyn. Ar y llaw arall, os nad ydi'r plentyn yn cael ei maethol a ddim yn cael yr amgylchedd cariadus bydd hyn yn effeithio'r plentyn mewn ffordd negatif.

Nesaf mae'r 'Meosystem' a dyma le mae'r perthynas rhwng rhieni'r plentyn a'r ymarferydd blynyddoedd cynnar yn cael effaith ar y plentyn. Yn ôl y system gan Bronfenbrenner, os odi'r plentyn yn gweld yr ymarferydd a'i rhieni yn cyfathrebu mewn ffordd bositif ac yn dangos perthynas bositif mae hyn yn mynd i gael effaith positif ar ddatblygiad y plentyn.

Cyferiadau.

Androne, M. (2014) 'Notes on John Locke's views on education', *Procedia – Social and Behavioral Science*, 137, pp 74-79. Ar gael: <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1877042814036878> (Cyrchwyd: 28 Tachwedd 2021).

Aubrey, K. and Riley, A. (2019) *Understanding and Using Educational Theories*. 2nd edn. London: Sage.

Belfast Education and Library Board. (2011) *Early Years Learner Support Handbook*. Ar gael: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/512192/mod_resource/content/1/Transition%20handbook.pdf?redirect=1 (Cyrchwyd: 18th of November 2021).

Brooker, L. (2008) *Supporting Transitions in the Early Years*. Berkshire: McGraw-Hill Education.

Children's Workforce Development Council. (2010) *The Common Core of Skills and Knowledge: At the Heart of What we Do*. Leeds: CWDC.

Clipartstation (dim dyddiad). *Early Childhood Clipart 6* [Llun]. Ar gael yn: <https://clipartstation.com/early-childhood-clipart-6/> (Cyrchwyd: 28 Tachwedd 2021).

Frost, A. et al. (2013) *Observing Children with Attachment Difficulties in Preschool Settings: A Tool for Identifying and Supporting Emotional and Social Difficulties*. London: Jessica Kingsley Publishers.

Funderstanding (2011) *Child Separation Anxiety* [Llun]. Ar gael: <https://www.funderstanding.com/theory/child-development/child-separation-anxiety/> (Cyrchwyd: 14 Tachwedd 2021).

Gunning, C. (2020) *Transition*. Ar gael: <https://early-education.org.uk/transitions> (Cyrchwyd: 26 Tachwedd 2021).

Kindpng (2019) *Free pictures of children – Children working Together Clipart, HD Png Download* [Llun]. Ar gael: https://www.kindpng.com/imgv/ibboohm_free-pictures-of-children-children-working-together-clipart/ (Cyrchwyd: 28 Tachwedd 2021).

Llywodraeth Cymru (2015) *Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar*. Ar gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/deilliannau-r-blynyddoedd-cynnar-fframwaith.pdf> (Cyrchwyd: 28 Tachwedd 2021).

Macdonald, N., Gealy, A-M. a Tinney, G. (2019) 'Exploring the effect of an attachment intervention in areas of multiple deprivation on adult-child interaction and the implications for children's social, emotional and behavioural development', *Early Child Development and Care*, 191(5), pp. 670-684. Ar gael: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/03004430.2019.1641704> (Cyrchwyd: 23 November 2021).

Manchester Metropolitan University (dim dyddiad) *Maslow's Hierarchy of learning needs (1943)* [Llun]. Ar gael: <https://www.stemlynsblog.org/better-learning/educational-theories-you-must-know-st-emlyns/educational-theories-you-must-know-maslow-st-emlyns/> (Cyrchwyd: 28 Tachwedd 2021).

McLeod, S. A. (2018). *Maslow's hierarchy of needs*. Ar gael: <https://www.simplypsychology.org/maslow.html> (Cyrchwyd: 16 October 2021).

Mooney, C G. (2013) *Theories of Childhood: An introduction to Dewey, Montessori, Erikson, Piaget, and Vygotsky*. 2nd edn. St. Paul: Redleaf Press.

SimplyPsychology (2020) *Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory* [Llun]. Ar gael: <https://www.simplypsychology.org/Bronfenbrenner.html> (Cyrchwyd: 10 Tachwedd 2021).

Trodd, L. (2013) *Transitions in the Early Years: Working with Children and Families*. London: Sage.

Thornton, L. and Brunton, P. (2014) *Bringing The Reggio Approach to your Early Years Practice*. 3rd edn. Abingdon: Routledge.

Tovey, H. (2017) *Bringing the Froebel Approach to your Early Years Practice*. 2nd edn. Abingdon: Routledge.

Unicef (2010) *Pa Hawliau?*. Ar gael: <https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/wp-content/uploads/sites/4/2018/02/UNCRC-in-Welsh.pdf> (Cyrchwyd: 28 Tachwedd 2021).

Walker, S. *et al.* (2012) 'The transition to school of children with developmental disabilities: Views of parents and teachers', *Australasian Journal of Early Childhood*, 37(3), pp. 22-29. Ar gael: <https://eprints.qut.edu.au/45881/2/45881.pdf> (Cyrchwyd: 19 Tachwedd 2021).

Welham, H. (2015) 'Top tips for teachers on engaging parents in learning', *The Guardian*, 28th June. Ar gael: <https://www.theguardian.com/teacher-network/2015/jun/28/top-tips-for-teachers-on-engaging-parents-in-learning> (Cyrchwyd: 21 Tachwedd 2021).